



Eich cyf/Your ref P-06-1352
Ein cyf/Our ref LW/01411/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgr Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

04 Awst 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf ynghylch deiseb P-06-1352 Cymeradwyo adeiladu'r Drydedd bont dros Afon Menai.

Pan wnaethom gyhoeddi ein [Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafndiaeth 2022 i 2027 | LLYW.CYMRU](#) ochr yn ochr â'r [Adolygiad ffyrdd | LLYW.CYMRU](#), ymrwymom i ddatblygu opsiynau i sicrhau gwydnwch croesi Afon Menai mewn ffordd sy'n cefnogi newid moddol, yn cyd-fynd â phrofion a nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad.

Rydym wedi gofyn i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru wneud argymhellion ar y ffordd orau o gyflawni hyn ac fe wnaethant gyhoeddi eu [hadroddiad interim](#) ym mis Mehefin. Gellir dod o hyd i fanylion ar gyfer Afon Menai yn Atodiad 1, tudalen 34. Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad terfynol ac argymhellion y Comisiwn yn ddiweddarach eleni, a fydd yn cynnwys ystyriaeth fanwl o'r opsiynau i wella'r cysylltiadau rhwng Ynys Môn a Gwynedd. Yn dilyn hyn, byddaf yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru.

O ran y gwaith presennol ar Bont Menai, bydd yr ail gam hwn o'r gwaith yn gweld crogwyr parhaol newydd yn cael eu gosod, yn dilyn cyfnod o ddatblygu a phrofi trylwyr, yn ogystal â gwaith peintio helaeth i du allan y bont.

Mae'r dyddiad dechrau wedi'i ddewis i leihau tarfu dros wyliau'r haf a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ddiwedd haf 2025 - cyn deucanmlwyddiant y bont ym mis Ionawr 2026.

Ni fydd y rhaglen waith yn golygu cau'r bont yn llawn ac mae pob ymdrech yn cael ei wneud i leihau tarfu pellach ar gymunedau ar ddwy ochr y bont ac rydym yn gwerthfawrogi'r amynedd y maent wedi'i ddangos.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi cyhoeddi rhestr o gwestiynau cyffredin ar [A5 Pont Menai: cwestiynau cyffredin | LLYW.CYMRU](#) a bydd hyn yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Lee', is centered on a light grey grid background.

Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change